

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn y Rhithiol ddydd Iau, 8 Gorffennaf, 2021

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Aled Morris Jones (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Dylan Rees (Is-Gadeirydd)

Cyngorwyr Richard Griffiths, Richard O. Jones, Alun Roberts, Margaret M Roberts

## Aelodau Portffolio

Cyngorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant ac Ieuencid)

**Wrth law:** Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Ymddiheuriadau:** Cyngorwyr Bryan Owen, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts a Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig), Cyngorydd Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol), Cyngorydd Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid), Mr Dylan Williams (Dirprwy Brif Weithredwr), Mr J.Huw Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd)

**Hefyd yn bresennol:** Swyddog Sgriwtini (SR)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>1 Datganiad o Ddiddordeb</b>
PENDERFYNIAD	Bu i'r Cyngorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol ond nid un oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda, am iddo fod wedi gwirfoddoli gyda menter Bwyd Da Môn.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol</b>
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar y 7fed o Fehefin, 2021, ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir.
RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol ar Effeithiolrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21</b>
PENDERFYNIAD	Wedi diolch i Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol am ei gyflwyniad a'i ymatebion ac am waith y Gwasanaethau Cymdeithasol drwy gydol y pandemig, penderfynodd y Pwyllgor Sgriwtini

	<p>Corfforaethol -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dderbyn a nodi adroddiad drafft Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ar Effeithiolrwydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2022/21 ac i argymhell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.</li> <li>• Cadarnhau fod y pwyllgor yn fodlon fod yr adroddiad yn - <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dangos sefyllfa bresennol y Cyngor o ran darparu Gwasanaethau Cymdeithasol.</li> <li>• Rhoi adlewyrchiad cywir o'i flaenoriaethau gwella ar gyfer y Gwasanaethau Oedolion a Phlant a Theuluoedd ar gyfer y flwyddyn i ddod.</li> <li>• Adlewyrchu atebolrwydd a chyfrifoldeb y Cyngor o ran ei Wasanaethau Cymdeithasol.</li> </ul> </li> </ul> <p>NI ARGYMHELLWYD UNRHYW WEITHRED BELLACH.</p>
--	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Blaen Raglen Waith</b>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Derbyn y fersiwn presennol o'r blaen raglen waith ar gyfer 2021/22.</li> <li>• Nodi'r cynnydd hyd yn hyn o ran gweithredu'r blaen raglen waith.</li> </ul>